Prawf budd y cyhoedd ar y sefyllfa uno posibl mewn perthynas ag ITV M&E Holdings Limited

Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

Cyhoeddwyd: 5 Tachwedd 2026
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 13 Tachwedd 2026

Cynnwys

Adran

1. Gwahoddiad i gyflwyno sylwadadu 3

Atodiad

A1. Taflen glawr yr ymateb 8

1. Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

1.1 Ar 4 Tachwedd 2026, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Hysbysiad Ymyrraeth Budd y Cyhoedd ("PIIN")[1] o dan adran 42(2) o Ddeddf Menter 2002 (y "Ddeddf") mewn perthynas â'r sefyllfa uno berthnasol bosibl sy'n deillio o 'r caffaeliad arfaethedig gan Sky UK Limited o ITV M&E Holdings Limited. Dylid darllen y gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau ar y cyd â'r cyfeiriad PIIN.[2]

1.2 Mae'r PIIN yn nodi'r ystyriaethau budd cyhoeddus canlynol fel rhai a allai fod yn berthnasol i'r sefyllfa uno berthnasol a nodwyd:

i. yr angen am fynegi barn yn rhydd yn y cyfryngau newyddion (“y sail mynegi barn yn rhydd");[3]

ii. yr angen, i'r graddau y mae'n rhesymol ac ymarferol, amrywiaeth ddigonol o safbwyntiau yn y cyfryngau newyddion ym mhob marchnad ar gyfer cyfryngau newyddion yn y Deyrnas Unedig neu ran o'r Deyrnas Unedig (y "sail amrywiaeth o safbwyntiau");[4]

iii. yr angen, mewn perthynas â phob cynulleidfa wahanol yn y Deyrnas Unedig neu mewn ardal neu leoliad penodol o'r Deyrnas Unedig, am amrywiaeth ddigonol o bobl sydd â rheolaeth o'r mentrau cyfryngau sy'n gwasanaethu pob cynulleidfa ("y sail amrywiaeth o unigolion sydd â rheolaeth");[5]

iv. yr angen am argaeledd, ledled y Deyrnas Unedig, i ystod eang o (i) rhaglenni darlledu, a (ii) rhaglenni ar-alw, sydd pan ystyrir yn eu cyfanrwydd o ansawdd uchel ac wedi’u cynllunio i apelio at amrywiaeth eang o chwaeth a diddordebau ("y sail ystod o ddarlledu").[6]

1.3 Mae'n ofynnol i Ofcom adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A o'r Ddeddf. Mae'r PIIN yn nodi bod yn rhaid i ymchwiliad ac adroddiad Ofcom gael ei gwblhau erbyn 5pm, 27 Ionawr 2027. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried Canllawiau 2004 ar weithrediad darpariaethau uno budd y cyhoedd sy'n ymwneud ag uno papurau newydd a chyfryngau eraill.

1.4 Heddiw, rydym wedi cyhoeddi nodyn cyfarwyddyd ar ein gwefan,[7] sy'n amlinellu’r broses a'r amserlen ar gyfer paratoi ein hadroddiad ar yr ystyriaethau budd y cyhoedd a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y PIIN.

---

[1] Daw’r PIIN yn dilyn cyhoeddi llythyrau 'mynegi bwriad' ar 15 Hydref 2026, ac fe'i cyhoeddwyd ochr yn ochr â llythyrau gan DCMS at Sky ac ITV plc ynghylch y penderfyniad i gyfeirio at Gam 1 - GOV.UK

[2] Y PIIN a dogfennau cysylltiedig

[3] Wedi'i nodi o dan adran 58(2A)(b) o'r Ddeddf.

[4] Wedi'i nodi o dan adran 58(2B) o'r Ddeddf.

[5] Wedi'i nodi o dan adran 58(2C)(a) o'r Ddeddf.

[6] Er nad yw hyn wedi'i nodi ar hyn o bryd yn adran 58 o'r Ddeddf, o dan adran 42 gall yr Ysgrifennydd Gwladol gynnwys, mewn PIIN, ystyriaeth o fudd y cyhoedd nad yw wedi'i nodi yn adran 58, ond y mae'n cael ei hystyried yn berthnasol ac yn rhywbeth y dylid ei nodi.

[7] Gwahoddiad i wneud sylwadau a nodyn cyfarwyddyd - 5 Tachwedd 2026

1.5 Rydym yn chwilio am ymatebion sy'n darparu tystiolaeth ar y materion a nodir isod erbyn 5pm 13 Tachwedd 2026.

Y sail mynegi barn yn rhydd

1.6 Byddwn yn ystyried yr angen am fynegi barn yn rhydd yn y cyfryngau newyddion, fel y nodir yn y Ddeddf.[8] Bydd rhan o'n hasesiad yn cynnwys unrhyw ystyriaethau perthnasol a allai effeithio ar allu Sky neu ITV i adrodd yn rhydd.

1.7 Mae'r canllawiau statudol ar y sail hon yn disgrifio sut mae mynegi barn yn rhydd yn ymwneud â "i ba raddau y byddai'r trafodiad yn effeithio ar ryddid golygyddion i weithredu heb ymyrraeth gan y perchennog".[9]

1.8 Rydym yn nodi bod y canllawiau statudol yn ymwneud ag uno papurau newydd, ac yn dyddio o gyfnod cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei diweddaru i ymestyn y sail sy'n ymwneud â mynegi barn yn rhydd i gynnwys y cyfryngau newyddion. Fodd bynnag, credwn fod yr egwyddorion o fewn y canllawiau yn berthnasol.[10]

1.9 Gallwn ystyried cyd-destun y farchnad, ffactorau eraill a allai effeithio ar allu'r endid sydd wedi'i uno i adrodd yn rhydd, ac unrhyw fesurau y gallai'r partïon fod wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu rhyddid golygyddol. Gallwn hefyd ystyried i ba raddau y mae'r mesurau hynny'n ddigonol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon (os o gwbl) a allai godi o'r trafodiad.

1.10 Rydym yn ceisio barn ar yr holl faterion a nodir uchod ac unrhyw faterion eraill y mae ymatebwyr yn credu y dylem eu hystyried mewn perthynas ag effaith y trafodiad ar y sail sy'n ymwneud â mynegi barn yn rhydd.

Y sail sy'n ymwneud ag amrywiaeth o safbwyntiau

1.11 Byddwn yn ystyried y sail sy'n ymwneud ag amrywiaeth o safbwyntiau yng ngoleuni'r fframwaith statudol perthnasol; fframwaith lle mae'r Senedd y DU wedi rhoi pwys ar yr angen am ddigon o amrywiaeth yn y cyfryngau er mwyn i gymdeithas ddemocrataidd iach a gwybodus allu gweithredu.

1.12 Gan fod y Ddeddf wedi nodi ystyriaethau budd y cyhoedd ar gyfer cyfryngau newyddion, ein barn dros dro yw, wrth gynnal ymchwiliad cychwynnol i'r sail hon ac wrth ddarparu cyngor ar argymhellion, y bydd y rhesymu a nodwyd gennym yn ein fframwaith mesur ar gyfer amrywiaeth yn y cyfryngau, a gyhoeddwyd yn 2015, yn debygol o fod yn berthnasol.

1.13 Yn amodol ar yr ymatebion i'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau, rydym felly'n ystyried dros dro mai newyddion a materion cyfoes yw'r *genres* perthnasol i'w hystyried. Rydym yn ystyried hyn yng ngoleuni datblygiadau yn y farchnad a datblygiadau posibl yn y dyfodol, tueddiadau fel newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn defnyddio newyddion (gan gynnwys ar-

[8] Adran 58(2A)(b) o'r Ddeddf.
[9] Canllawiau ar weithrediad y darpariaethau uno er budd y cyhoedd sy'n ymwneud ag uno papurau newydd a chyfryngau eraill, Mai 2004, paragraff 5.7.
[10] Ymgynghorodd y Llywodraeth ar ddeddfwriaeth newydd ac mae wedi dewis symud ymlaen â'r diffiniadau arfaethedig fel y nodwyd - Ymgynghoriad ar ddiweddaru'r gyfundrefn uno cyfryngau - ymateb y llywodraeth - GOV.UK

lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol); a rheoleiddio a goruchwylio – sydd, mewn rhai achosion, yn seiliedig ar rwymedigaethau statudol – e.e. Cod Darlledu Ofcom.[11]

1.14 Rydym yn ceisio barn ar yr holl faterion a nodir uchod ac unrhyw faterion eraill y mae ymatebwyr yn credu y dylem eu hystyried mewn perthynas ag effaith y caffaeliad hwn ar amrywiaeth o safbwyntiau.

Y sail sy'n ymwneud â nifer yr unigolion sydd â rheolaeth

1.15 Bydd ein fframwaith mesur ar gyfer amrywiaeth yn y cyfryngau hefyd yn llywio rhan o'n hasesiad o'r sail sy'n ymwneud â nifer yr unigolion sydd â rheolaeth. Yn yr un modd, rydym o'r farn dros dro bod newyddion a materion cyfoes yn *genres* perthnasol i'w hystyried o dan y sail hon. Rydym hefyd yn disgwyl ystyried pa mor berthnasol y gallai genres eraill fod i'n hasesiad er enghraifft, darlledu chwaraeon.

1.16 Yn benodol, byddwn yn ceisio barn ar:

a. Cynulleidfaoedd

b. Platfformau cyfryngau

c. Rheolaeth ar fentrau cyfryngau

1.17 Cynulleidfaoedd: byddwn yn ystyried a fydd grwpiau penodol o ddefnyddwyr neu ddinasyddion (wedi'u diffinio yn ôl lleoliad, demograffig, grŵp economaidd-gymdeithasol neu unrhyw feini prawf perthnasol eraill) yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i lefel yr amrywiaeth yn y cyfryngau o ganlyniad i'r caffaeliad arfaethedig. Er enghraifft, drwy gyfyngu ar amrywiaeth mynegiant diwylliannol neu erydu cydlyniant cymdeithasol ac eiliadau diwylliannol a rennir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU.

1.18 Platfformau cyfryngau: byddwn yn ystyried pa blatfformau neu fentrau cyfryngau sy'n berthnasol (er enghraifft teledu, papurau newydd, radio, ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol, ac ati).

1.19 Rheolaeth ar fentrau cyfryngau: mewn perthynas â mater o reolaeth, byddwn yn ystyried:

a) Amrywiaeth yr unigolion sydd â rheolaeth ar y mentrau cyfryngau perthnasol (perchnogaeth a rheolaeth allanol).

b) Amrywiaeth yn yr ystod o wybodaeth a barn sydd ar gael i gynulleidfaoedd, gan gynnwys lefel yr annibyniaeth o ran rheolaeth olygyddol neu fynegiant o fewn y mentrau cyfryngau perthnasol (rheolaeth fewnol).

[11] O safbwynt rheoleiddio, mae darlledwyr yn ddarostyngedig i ofynion didueddrwydd, tra nad yw papurau newydd a gwefannau. Mae Cod Darlledu Ofcom yn mynnu bod "newyddion ym mha bynnag ffurf, yn cael eu hadrodd gyda chywirdeb priodol a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyledus." Nid yw'r gofyniad am "ddidueddrwydd dyledus" yn absoliwt ac mae gan ddarlledwyr rywfaint o ddisgresiwn golygyddol wrth ddewis yr agenda newyddion. Rydym yn cydnabod y gall y rheolau didueddrwydd gyfrannu fel mesur diogelu rhag dylanwad posibl ar yr agenda newyddion gan berchnogion y cyfryngau, ond ni allant ynddynt eu hunain sicrhau na fydd hynny'n digwydd.

1.20 Gwahoddwn farn ar y materion a nodir uchod, yn ogystal ag unrhyw faterion pellach y mae ymatebwyr yn ystyried eu bod yn berthnasol i'w hystyried wrth i ni asesu'r sail hon sy'n ymwneud â budd y cyhoedd.

Yr ystod o raglenni

1.21 Fel rhan o'n hasesiad, byddwn yn ystyried yr angen i ystod eang o (i) raglenni ddarlledu a (ii) rhaglenni ar-alw fod ar gael ledled y Deyrnas Unedig; rhaglenni pan ystyrir yn eu cyfanrwydd o ansawdd uchel a wedi'u llunio i apelio at amrywiaeth eang o chwaeth a diddordebau.[12]

1.22 Mae'r canllawiau statudol yn nodi bod y maen prawf hwn yn ymwneud â "diogelu ansawdd ac ystod y darlledu pan fydd uno yn digwydd er mwyn sicrhau amrywiaeth o raglenni a diogelu buddiannau gwylwyr a gwrandawyr."[13]

1.23 Mae'r canllawiau'n egluro y gallai asesiad o'r maen prawf hwn ystyried amrywiaeth o ffactorau, fel argaeledd rhaglenni sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau, ac sydd:

a) yn debygol o ddiwallu anghenion a bodloni diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol â phosibl;
b) wedi'u cydbwyso'n briodol o ran natur a'u pwnc;
c) cynnal safonau uchel gyffredinol o ran cynnwys rhaglenni, sgiliau proffesiynol, ac uniondeb golygyddol wrth gynhyrchu'r rhaglenni.

1.24 Mae'n debygol y bydd yr asesiad yn ystyried cynlluniau Sky ar gyfer y dyfodol, a gallai hefyd ystyried cydymffurfiaeth flaenorol ag oblygiadau darlledu, gan gynnwys cwotâu ITV.

1.25 Yn debyg i'r seiliau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o safbwyntiau, byddwn yn ystyried hyn yng nghyd-destun datblygiadau yn y farchnad, yn ogystal â datblygiadau a thueddiadau posibl yn y dyfodol - fel arferion defnyddio cynulleidfaoedd – er mwyn galluogi ein hasesiad o'r nodweddion uchod, gan ystyried darlledu a gwasanaethau ar-alw ill dau.[14]

1.26 Felly, rydym yn gwahodd safbwyntiau ar y materion a nodir uchod yn ogystal ag unrhyw faterion eraill y mae ymatebwyr yn eu hystyried yn berthnasol i'w hystyried yn ystod ein hasesiad o'r sail hon sy'n ymwneud â budd y cyhoedd.

Sut i gyflwyno sylwadau

1.27 Mae Ofcom yn gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig erbyn 5pm, 13 Tachwedd 2026. Rydym yn chwilio am ymatebion sy'n cynnig safbwyntiau, wedi'u hategu gan dystiolaeth, ar y cwestiynau penodol a nodir uchod, neu ar ystyriaethau eraill y mae rhanddeiliaid yn eu hystyried yn berthnasol (sydd hefyd wedi'u hategu gan dystiolaeth). Oherwydd yr amserlenni a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, efallai na fyddwn yn gallu ystyried ymatebion a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad hwn yn llawn.

---

[12] Er nad yw hyn wedi'i nodi ar hyn o bryd yn adran 58 o'r Ddeddf, o dan adran 42 gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno – drwy PIIN – ystyriaeth sy'n ymwneud â lles y cyhoedd, nad yw wedi'i nodi yn adran 58 ond y mae hi'n ei hystyried yn berthnasol ac yn rhywbeth y dylid ei nodi.

[13] Canllawiau ar weithrediad y darpariaethau uno er budd y cyhoedd sy'n ymwneud ag uno papurau newydd a chyfryngau eraill, Mai 2004, paragraff 7.18.

[14] https://www.gov.uk/government/collections/the-anticipated-acquisition-of-itv-media-and-entertainment-holdings-limited-by-sky-uk-limited

1.28 Anfonwch eich sylwadau drwy e-bost at PublicInterestTestSkyITV@ofcom.org.uk, gan atodi eich ymateb ar ffurf dogfen Microsoft Word, ynghyd â thaflen glawr ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad (Atodiad 1). Croesawn ymatebion yn Gymraeg.

1.29 Fel arall, gellir postio ymatebion drwy'r post i'r cyfeiriad isod, wedi'u marcio at 'Sky/ITV Public Interest Test 2026':

Tîm Prawf Budd y Cyhoedd Sky/ITV 2026
1.2 Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

1.30 Nid oes angen copi caled arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Ni fydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion.

1.31 Mae Ofcom yn cadw cyfrinachedd ym mhob agwedd ar ei waith. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a ddarparir mewn ymateb i'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau. Byddwn yn rhannu'r holl gyflwyniadau perthnasol (gan gynnwys y rhai cyfrinachol) â'r Ysgrifennydd Gwladol (a'r CMA er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, neu os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyfeirio'r mater atynt) er mwyn iddi allu gwneud ei phenderfyniad. Os yw'ch cyflwyniad yn cynnwys deunydd sy'n gyfrinachol, bydd angen fersiwn lawn gyda gwybodaeth gyfrinachol wedi'i hepgor, ynghyd â'r rhesymau pam y dylid trin y cyflwyniad fel un cyfrinachol, er mwyn helpu i sefydlu beth y gall ac na allai fod yn briodol cyfeirio ato yn gyhoeddus yn ystod y gwaith hwn.

1.32 Sylwer, os yw unrhyw berson (yn fwriadol neu'n fyrbwyll) yn darparu gwybodaeth i ni yn y cyd-destun hwn sy'n ffug neu'n gamarweiniol mewn modd sylweddol, mae hynny'n drosedd y gellir ei gosbi â dirwy a/neu ddwy flynedd o garchar.[15]

[15] Adran 117 o'r Ddeddf.

A1. Taflen glawr yr ymateb

Manylion sylfaenol

Teitl y gwahoddiad i gyflwyno sylwadau:

At (cyswllt Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Cynrychioli (eich hun neu sefydliad):

Cyfeiriad (os na dderbynnir drwy e-bost):

Cyfrinachedd

Ticiwch isod pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei ystyried yn gyfrinachol, gan roi eich rhesymau pam

- Dim byd ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl y swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os gwnaethoch ddewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad gael ei chyhoeddi, a all Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn eich galluogi i gael eich adnabod)?

Ydy ☐ Na ☐

Datganiad

Rwy'n cadarnahu bod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r daflen glawr hon yn ymateb ffurfiol y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio fel rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau e-bost.

Enw Llofnod (os yw'n gopi caled)